

“Fe arhosaf nes imi gyrraedd adref”

“Ond pan ddaw'r hyn sy'n gyfiawn, fe ddiddymir yr hyn sy'n anghyfiawn.”
(adn. 10)

Beth am ddarlenn 1 Corinthiaid 13:1–13 ac yna myfyrio

Edrychwn nawr ar drydedd elfen y gamp o ddweud stori dda: *symudiad*. Mae hwn ynglŷn â'r ffordd mae stori'n datblygu. Diffinia Eugene Paterson gynghori Cristnogol fel “gwrando ar stori rhywun a chwilio am symudiad Duw”. Mae o'n cymryd yn ganiataol bod Duw wastad wrthi'n gwneud rhywbeth ym mywyd y Cristion. Eto, sut allwn ni gredu hynny pan fo bywyd yn dod i stop a dim byd i'w weld yn digwydd? A'r adegau hynny pan fydd gennym, nid ambell un, ond llu o ofidiau?

Yna aml, ar ôl eistedd gyda rhai y mae trasiedi wedi dod drostyn nhw fel ton fawr, y maen nhw'n gofyn: “Sgwn i beth sydd gan Dduw yn ei feddwl yn gadael i hyn ddigwydd?” A'm hateb innau fel arfer yw: “Wn i ddim, ond beth bynnag sy'n digwydd, mae ef yn mynd drwyddo fo gyda chi.” Dydi amser o drasiedi ddim yn amser i areithio ar broblemau mwyaf y bydysawd. Mae'n amser i godi golwg fry ac ymddiried yn dawel. Nid pob Cristion, fodd bynnag, sy'n gryf o ran ffydd ac yn gallu moli Duw ynghanol trybini a chredu ei fod yn dwyn rhywbeth da allan o'r cyfan. Byddai'r rhan fwyaf ohonom efallai, a minnau'n un ohonyn nhw, yn uniaethu gyda'r dyn y bŵm yn sgwrsio efo fo'n ddiweddar ac a ddywedodd: “Y gorau allaf fi ei wneud ar adegau o drafferthion a thrasiedi yw arddangos ufudd-dod mud.”

Mae yna rai problemau digon tywyll yn fy mywyd i fy hun na fedrais i erioed eu deall yn llawn. Tywynna *peth* golau ar y problemau hynny, ond does dim ateb *cyflawn* yn ei gynnig ei hun. Fodd bynnag, beth bynnag yw bwriad Duw, dywedir wrthyf yn yr Ysgrhythur mai da ydyw. Mae'n rhaid imi ddal gafael yn hynny. Ceir digon o olau'n taro ar ein llwybr inni gael gweld ein ffordd ymlaen. Ond er mwyn cael yr esboniad terfynol rhaid inni aros nes inni gyrraedd adref, ac yna bydd ef ei hun yn ei esbonio inni.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Job 13:15;

Hab. 3:17–19;

Actau 16:22–25

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y gallwn ymddiried fel Job a llawenhau fel Habacuc?
2. Sut ddaru Paul a Silas ymateb i'w trafferthion anhaeddiannol?

Gweddi Fy Nhad a'm Duw, helpa fi ar yr adegau hynny pan na fedraf i gael hyd i unrhyw atebion i godi 'ngolwg fry ac ymddiried yn dawel – i dy drystio di pan na fedraf dy olrhain di. Yn enw Crist y gofynnaf hyn. Amen.